IESU YN Y DEML

Pan oedd Iesu yn 12 mlwydd oed aeth efo'i rieni, Mair a Joseff, i'r Deml ar gyfer Gwyl y Bara Croyw. Ar ôl i'r dathlu ddod i ben, cychwynnodd bawb ar y daith adref ond arhosodd Iesu yn y Deml efo'r athrawon crefyddol. Wnaeth ei rieni ddim sylweddoli hynny. Pan wnaethon nhw sylweddoli ei fod ar goll, aethon nhw yn ôl i Jerwsalem i chwilio amdano. O'r diwedd, ar ôl tri diwrnod, fe gaethon nhw hyd iddo yn y Deml. Roedd yn trafod cwestiynau crefyddol pwysig efo athrawon y gyfraith. Roedd Iesu yn hapus i fod yno, am mai ty ei Dad oedd y Deml.

"Rôn i wrth fy modd pan ddwedon nhw wrtho i 'Gadewch i ni fynd i deml yr Arglwydd.'"
Salm 122:1

Beth allwn ni ei ffindio yn y Deml?

Gwers 6
IESU YN Y DEML

Testun y Beibl: Luc 2:41-52

Adnod allweddol: Salm 122:1

Pwrpas: Bydd y plant yn dysgu am ymweliad Iesu â'r Deml pan oedd yn 12 mlwydd oed.

Nodwch os gwelwch yn dda

Cynlluniwch weithgareddau addas i'r plant yn eich grwp. Gall y gweithgareddau gael eu haddasu yn dibynnu ar faint, oed a gallu'r grwp, ynghyd â'r amser sydd ar gael ayb.

I Gwers

Ar ôl i'r plant liwio'r daflen liwio, dywedwch hanes Iesu yn mynd i'r Deml o Luc 2:41-52. Dyma gwestiynau i gyflwyno'r stori.

- Pwy sydd wedi bod ar daith efo'ch rhieni?
- Dach chi erioed wedi gadael eich rhieni heb ddweud wrthyn nhw i ble oeddech chi'n mynd?
- Sut wnaeth eich rhieni ymateb pan ddaethoch chi yn ôl? Wnaethon nhw ddweud y drefn?
- Ydy hi'n iawn i adael eich rhieni heb ddweud i ble dach chi'n mynd? Pam allai hynny fod yn beryglus?

Mae stori heddiw am yr tro pan aeth Iesu i Jerwsalem efo'i rieni ar gyfer Gwyl y Bara Croyw. Roedd yn ddeuddeg mlwydd oed. Ar ôl i'r dathlu orffen, wnaeth Iesu ddim cychwyn adref efo'i deulu. Arhosodd yn y Deml. Doedd ei rieni ddim yn gwybod ei fod yn dal yn y Deml ond cyn bo hir fe wnaethon nhw sylweddoli ei fod ar goll. Felly aethon nhw i chwilio amdano. Ar ôl chwilio am dri diwrnod fe aethon nhw yn ôl i'r Deml a chael hyd iddo yno. Doedd Iesu ddim ar goll mewn gwirionedd. Roedd wedi aros yn y Deml ar bwrpas. Wnaeth Mair a Joseff gael hyd iddo yn trafod materion crefyddol pwysig efo athrawon y gyfraith. Roedd pawb oedd yn ei glywed yn siarad yn synnu at ei atebion llawn deall. Doedd ei rieni ddim yn gwybod beth i'w feddwl. Dwedodd ei fam wrtho, "Machgen i, pam wyt ti wedi gwneud hyn i ni? Mae dy dad a fi wedi bod yn poeni'n ofnadwy ac yn chwilio ym mhobman amdanat ti." Gofynnodd Iesu, "Pam roedd rhaid i chi chwilio? Wnaethoch chi ddim meddwl y byddwn i'n siwr o fod yn nhy fy Nhad?" Dwedodd hynny am mai Mab Duw ydy o. Wedyn aeth Iesu yn ôl i Nasareth efo'i rieni ac roedd yn ufudd iddyn nhw. Roedd Iesu bob amser yn ufudd i'w dad a'i fam am ei fod yn blentyn da. Tyfodd Iesu'n fachgen doeth a chryf ac roedd Duw yn ei garu a phawb yn ei hoffi.

II Gweithgareddau

1 Yr Adnod Allweddol

a) Darllenwch yr adnod yn uchel:

"Rôn i wrth fy modd pan ddwedon nhw wrtho i 'Gadewch i ni fynd i deml yr Arglwydd.'" Salm 122:1

b) Eglurwch yr adnod

Pan mae'r salmydd yn dweud, "Rôn i wrth fy modd" mae'n golygu nad oedd yn medru aros i fynd i dy Dduw. Ty Dduw ydy'r lle mae Cristnogion yn mynd i addoli Duw, i fod yn ddiolchgar iddo ac i gael amser da efo'i gilydd. Dach chi'n falch pan mae eich rhieni yn dweud, 'Gadewch i ni fynd i'r capel/eglwys?"

c) Helpwch y plant i ddysgu'r adnod.

Awgrym: Gwnewch dy papur y medr y plant ludo'r adnod allweddol arno.

Gadewch i'r plant gwblhau'r posau ar y daflen waith.

2 Cwestiynau adolygu i'r plant

- Pam wnaeth Iesu aros yn y Deml?
- Pam oedd ei rieni yn poeni?
- Beth wnaeth ei rieni ddweud wrtho pan wnaethon nhw ei ffindio?
- Beth oedd ateb Iesu?
- Beth ydy 'Ty yr Arglwydd'?
- Pwy sy'n hoffi mynd i Dy yr Arglwydd?

III Diweddglo

Oedd Iesu yn blentyn anufudd? Nac oedd. Wnaeth o ddim aros yn y Deml er mwyn gwneud i'w rieni boeni amdano. Mi wnaeth o aros yno achos y Deml ydy Ty yr Arglwydd a Mab Duw ydy o. Wnaeth o ddim gwneud dim yn anghywir. Roedd o jyst eisio bod efo'i Dad nefol am fwy o amser. Mae'r Beibl yn dweud fod Iesu yn ufudd i'w rieni. Rhaid i ti fod yn ufudd i dy rieni. Mae plant Duw yn tyfu yn gorfforol a hefyd yn dod yn fwy tebyg i Iesu Grist. Mae Duw yn caru ei blant. Wyt ti'n blentyn Duw?